

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

27 Mawrth 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans yn ystod y drafodaeth ar Adroddiad 01/19 Y diweddaraf am Strategaeth Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 11.40am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs Julie James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgan buddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018.

4. Y diweddaraf am Strategaeth Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru

Cyflwynodd Sioned Humphreys, Swyddog Marchnata Llwybr Arfordir Cymru, y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth hyrwyddo a ddatblygwyd i ail-ganolbwyntio a hyrwyddo'r llwybr o 2018 ymlaen. Hysbysodd yr Aelodau fod Llwybr Arfordir Cymru, a lansiwyd yn 2012, wedi cynhyrchu £84.7 miliwn i economi Cymru ac amcangyfrifwyd bod 1,000 o swyddi yn cael eu cynnal gan bobl yn cerdded arfordir Cymru. Roedd y gyllideb cynnal a chadw yn £1 miliwn y flwyddyn. Derbyniwyd £150,000 gan Croeso Cymru gyda £150,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Y weledigaeth oedd gwneud Llwybr Arfordir Cymru yn ased eiconig i Gymru, i ddenu mwy o bobl i gerdded yn amlach a bod y prosiect cydweithredol o fudd i bawb.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd M Evans ar y pwynt hwn.

Cysylltwyd â Marr & Associates, a oedd yn arbenigo mewn denu twristiaid, i ddarparu Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata am y 9 mis blaenorol, ac roedd y Swyddog yn falch iawn o'r ffordd yr oedd y llwybr wedi'i gyflwyno fel cyrchfan eiconig. Gwnaed ffilm a ffotograffiaeth



ddwyieithog gan Mother Goose, Cwmni o Sir Benfro, i ddiwallu'r angen am ddelweddau modern. Byddai'r holl ddelweddau'n cael eu rhoi ar Wales on View er mwyn i fusnesau i gael mynediad atynt at eu defnydd eu hunain. Byddai pecyn marchnata ar-lein hefyd ar gael i ddarparu syniadau ymarferol ar gyfer busnesau a gwestai a oedd yn cynnwys eitemau fel mapiau, amserlenni, teithlenni ac ati.

Cynlluniwyd gŵyl gerdded dan arweiniad Ramblers Cymru a phartneriaid eraill yn ystod mis Mai gyda 7 taith gerdded mewn 7 lleoliad dros 3 penwythnos, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn codi'r proffil ymhellach. Roedd realiti estynedig i gael ei ddefnyddio mewn 7 lleoliad porth, Y Gogarth, Porthaethwy, Ceinewydd, Pentywyn, Caerdydd, Saundersfoot a Borth y Gest, a fyddai'n dangos Cymru ar ei gorau o ran bod yn hygyrch a gyda chyfleusterau da. Roedd ap dwyieithog yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cael ei gysylltu â'r paneli gan roi gwybodaeth ddiddorol am yr ardaloedd. Byddai'n lawrlwytho un rhan o saith o'r data yn y 'porth' gyda'r gweddill yn cael eu llwytho i lawr yn llawn ar ôl i'r dyfeisiau gael signal Wifi cryf. Y gobaith oedd y byddai'r rhain yn cael eu lansio ym mis Mehefin ac roeddynt wedi'u cynllunio'n benodol i ddenu teuluoedd.

Roedd yr Aelodau eisiau sicrwydd y byddai'r gwaith yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at Lwybr Arfordir Sir Benfro yn hytrach na'i danseilio. Dywedodd y Swyddog ei bod yn gweld hyn fel partneriaeth, gyda Llwybr Arfordir Sir Benfro yn safon aur a'r ardaloedd eraill yn gorfod dal i fyny. Roedd gwerth da mewn hyrwyddo'r Llwybr cyfan ac ni fyddai Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cael ei danseilio. Dywedodd y Prif Weithredwr mai Sir Benfro oedd yr unig ran o'r arfordir a oedd â statws Llwybr Cenedlaethol ac nid oedd y rhannau eraill yn debygol o gyrraedd y safon am flynyddoedd lawer. Dywedodd fod manteision i farchnata gan nad oedd gan yr Awdurdod ddigon o adnoddau i ymgymryd â gweithgareddau marchnata tebyg. Teimlai un Aelod ei bod yn braf gweld ased eiconig fel Llwybr yr Arfordir yn cael ei ystyried mewn ffordd wahanol gyda'r gobaith y byddai Llwybr Arfordir Cymru yn cyrraedd statws Llwybr Cenedlaethol yn y pen draw. Credai y byddai angen ymchwilio i wahanol ffyrdd o ddefnyddio'r llwybr yn y dyfodol. Teimlai'r aelodau bod angen bod ar flaen y gad, a chofleidio'r newid. Cytunwyd ei fod yn ddarn gwybodaeth.

NODWYD

- 5. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod sy'n diweddu ar 31 Ionawr 2019**
Roedd adroddiad y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018/19 gan ddilyn y saith amcan llesiant, ac roedd adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.



Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at setiau data o ddiddordeb gan gynnwys canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnod amser, a oedd yn rhagori ar y targed, sef 83.63%. Fodd bynnag, roedd gostyngiad i 85.35% yn chwarter 2. Roedd disgwyl i'r Wefan newydd fynd yn fyw ddiwedd Ebrill / dechrau Mai. Penodwyd Rheolwyr newydd ar gyfer Castell Henllys ac Oriel y Parc.

Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod pam roedd nifer yr ymwelwyr wedi gostwng o ystyried eu bod yn teimlo ei bod wedi bod yn flwyddyn dda i dwristiaeth. Eglurodd y Swyddog bod y tywydd efallai yn rhy boeth, gyda'r cownteri ar lwybr yr arfordir yn cyfleu neges debyg. Mewn ymateb i gwestiwn arall, nodwyd na chynhaliwyd unrhyw sesiynau Parkwise yn Chwarter 3 gan fod deiliad y swydd wedi gadael a bod angen hyfforddi mwy o staff i arwain y digwyddiadau hyn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod llawer o swyddi yn dibynnu ar un person ac roedd hynny'n achosi problem pe baent yn gadael neu'n mynd ar absenoldeb salwch tymor hir. Roedd y Prif Weithredwr wedi mynychu cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar leoliadau profiad gwaith a oedd yn dangos bod y sector cyhoeddus eisiau darparu mwy o gyfleoedd i bobl weithio yn amgylchedd y sector cyhoeddus. Roedd rhai sefydliadau eisoes wedi'u sefydlu i weithredu hyn. Un opsiwn fyddai lledaenu lleoliadau gwaith ar draws sawl sefydliad. Teimlwyd bod presenoldeb da yn y cyfarfod ac roedd yn gadarnhaol. Roedd un Aelod yn pryderu ynghylch faint o bobl ifanc sy'n gadael Sir Benfro a beth y gellid ei wneud i'w cadw.

Roedd yr aelodau eisiau gwybod pam y nodwyd y sesiwn hyfforddi ar gyfer athrawon yn goch a soniwyd bod cyfleoedd eraill gyda gwahanol sefydliadau fel Canolfan Darwin a Dŵr Cymru. Roedd Ymddiriedolaeth Addysgol hefyd yn dechrau yn Lawrenni ac efallai y gallai'r Parc Cenedlaethol ymgysylltu â hyn.

Atebodd y Prif Weithredwr fod y gwaith hwn wedi ei wneud fel rhan o'r rhaglen Ysgolion Awyr Agored a dywedodd wrth yr Aelodau ei fod wedi derbyn gohebiaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn rhoi £638,000 o gyllid ychwanegol i'r Awdurdod. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i gefnogi'r rhwydwaith ysgolion awyr agored, yn ogystal â phrosiectau i wneud Hawliau Tramwy yn fwy cyfeillgar i beillwyr, rheoli tir, ffynhonnau yfed, uned wybodaeth symudol, gardd furiog Caeriw ac uwchraddio band eang ar ein safleoedd. Roedd yna hefyd £200,000 yn ychwanegol i gefnogi gwaith Llwybr Arfordir Cymru a byddai'r Awdurdod hefyd yn rheoli cyllid cyfalaf ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru trwy roi grantiau i Awdurdodau eraill. Byddai angen dod â'r eitemau hyn i gyfarfod nesaf yr Awdurdod gan fod yn rhaid i Aelodau gymeradwyo unrhyw grantiau dros £10,000.

Holodd yr Aelodau hefyd am y gostyngiad mewn gwerthiant yng Nghastell Henllys. Nododd y Prif Weithredwr fod y mater hwn hefyd wedi cael ei



godi yn y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol pan oedd wedi dweud bod y safle wedi bod heb reolwr penodol, ond bod Delun Gibby bellach wedi'i benodi i'r swydd honno. Dywedodd fod Castell Henllys yn derbyn adborth cadarnhaol yn gyson gan y rhai a ymwelodd â'r safle. Byddai'r Caffi yng Nghastell Henllys yn mynd allan ar dendr ddiwedd y tymor.

Gofynnodd yr Aelodau am y gostyngiad yn nifer y wardeiniaid gwirfoddol a nodwyd yn yr adroddiad, ac eglurodd y Swyddog fod ymarfer wedi'i wneud i ddileu wardeiniaid gwirfoddol anweithredol o'r rhestr a dyna oedd yn cyfrif am y ffigurau is. Byddai'r targed ar gyfer y flwyddyn nesaf yn is. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn recriwtio yn weithredol a'r gobaith oedd y byddai pobl o'r Prosiect Pathways yn dod yn wardeiniaid gwirfoddol.

DERBYNIWYD A NODWYD

6. Cofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf, a oedd wedi'i diwygio yn unol ag argymhelliad archwilio mewnol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid fod y fformat wedi newid o Fatics 3x3 i 4x4, ond teimlai'r Aelodau fod y newid wedi gwneud y gofrestr yn fwy cymhleth. Nododd y Prif Weithredwr eu sylwadau, a dywedodd fod y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol wedi cymeradwyo argymhelliad Archwiliad Mewnol bod swyddogion yn edrych ar y fframwaith. Fodd bynnag, y mater oedd gallu nodi'r risg yn y sefydliad ac ymateb iddo.

Holodd yr Aelodau am y risg yn Cilrhedyn ac fe'u hysbyswyd bod costau wedi'u lleihau, roedd yn cael ei gynnal yn llawer mwy effeithlon ac nid oedd yn gyfleuster segur. Nodwyd y byddai'n costio llawer mwy i greu canolfan newydd ar gyfer Wardeiniaid y Gogledd, roedd potensial i rannu'r safle ond nid oedd pwysau i wneud unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd.

Cododd un Aelod bryderon ynghylch dyfodol marchnata twristiaeth yn Sir Benfro, er nad oedd hyn yn rhan o'r gofrestr risg ar hyn o bryd. Cytunodd y Prif Weithredwr nad oedd strategaeth glir ar waith a bod angen i Gyngor Sir Penfro a'r diwydiant twristiaeth wneud eu rhan.

NODWYD

7. Cyfleuster Chwilio Ar-lein Rheoli Datblygu



Rhoddodd Caroline Bowen, yr Uwch-swyddog Cynllunio, gyflwyniad i'r Aelodau am y cyfleuster chwilio newydd a oedd yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i gael gafael ar geisiadau a chynlluniau ar-lein. Rhestrwyd pob cais ers 2009, ond dim ond y rhai a gyflwynwyd yn fwy diweddar oedd ar gael; byddai manylion yn cael eu cynnwys ar gyfer pob cais yn 2019, ond roedd hwn yn waith a oedd ar y gweill. Darparwyd linc ar y safle ar gyfer sylwadau ar geisiadau, gyda'r rhain yn mynd drwodd i'r Swyddog ond nid oedd ar gael i'r cyhoedd gan fod yn rhaid golygu'r holl wybodaeth bersonol oherwydd rheoliadau GDPR. Teimlai un Aelod y dylid cofnodi nifer y sylwadau heb i unrhyw wybodaeth bellach fod ar gael ac atebodd y swyddog y byddai'n bwydo sylwadau'r Aelod yn ôl i'r Arweinydd Tîm. Teimlai'r aelodau y byddai'r system newydd o fudd i Gynghorau Tref a Chymuned o ran mynediad ac argraffu. Cadarnhawyd y byddent yn dal i gael eu hysbysu'n ysgrifenedig os oedd cais cynllunio yn eu hardal. Roedd yr aelodau'n credu bod hwn yn gyfleuster newydd ardderchog.

NODWYD

8 Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

